# Dadfeddygoli cynnyrch heb glwten drwy gynllun cerdyn cymhorthdal: astudiaeth ansoddol o ddefnyddwyr gwasanaethau

Medi 2024

Abubakar Sha'aban, Francesca Mazzaschi, Beti-Jane Ingram, Muawiyah Sheraz, Elizabeth Doe, Natalie Joseph-Williams

## Cefndir

Mae clefyd seliag yn gofyn am ddeiet llym **heb glwten** i atal cymhlethdodau.
I ddechrau, roedd bwydydd heb glwten yn cael eu **rhagnodi** gan feddygon teulu i'w casglu mewn fferyllfeydd, gan nad oedd llawer iawn o fwydydd o'r fath ar gael.
Gan fod bwydydd heb glwten ar gael yn eang erbyn hyn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda'n cynnig cerdyn cymhorthdal i gleifion ar gyfer bwydydd heb glwten er mwyn iddyn nhw gael gafael ar y bwydydd sydd eu hangen arnyn nhw mewn siopau yn hytrach na fferyllfeydd.

## Nod yr Astudiaeth

Ystyried safbwyntiau ar gael **cardiau cymhorthdal rhagdaledig** yn lle presgripsiynau, gan gynnwys safbwyntiau:

1. Defnyddwyr a gymerodd ran yn y cynllun cerdyn
2. Unigolion nad ydyn nhw erioed wedi cymryd rhan yn y cynllun

## Amcanion

Ystyried ...

- **profiadau** o bresgripsiynau a'r cynllun cerdyn
- **effaith** y **dull presennol o gael gafael ar** fwydydd heb glwten ar fywyd bob dydd a **manteision ac anfanteision** amlwg newid i gerdyn cymhorthdal rhagdaledig
- **yr hyn sy'n rhwystro ac yn hwyluso** cymryd rhan
- **y prif flaenoriaethau** o ran cael gafael ar gynnyrch heb glwten – *beth sydd bwysicaf i unigolion?*
- **argymhellion** ar gyfer cyflwyno'r cynllun mewn mannau eraill yn y dyfodol
- **y rhesymau dros wrthod** cymryd rhan yn y cynllun peilot

## Dull

Cafodd data ansoddol eu casglu rhwng Ebrill a Gorffennaf 2024, a hynny ar y canlynol:

- **cyfweliadau Zoom** lled-strwythuredig
- y cyfranogwyr **sy'n gymwys** ar gyfer y cynllun cerdyn
- y cyfranogwyr a allai fod **yn gymwys yn y dyfodol** os caiff y cynllun ei gyflwyno ledled Cymru

Cafodd **rhaglen gyfweld** ei defnyddio i sicrhau bod **pynciau allweddol** yn cael sylw.

## Cyfranogwyr

**O'r 29 o unigolion a gymerodd ran mewn grŵp ffocws**

- Roedd 23 **yn gymwysi** gael bwydydd heb glwten
- Roedd 6 yn rheoli bwydydd heb glwten ar ran **unigolion eraill**
- Roedd 4 **wedi cymryd rhan yn y cynllun cerdyn peilot**
- Roedd pob un o'r 7 bwrdd iechyd wedi'u cynrychioli yn y sampl

Roedd statws anabledd, cyrhaeddiad addysgol, statws cyflogaeth ac incwm personol y cyfranogwyr yn **amrywio.**

## Prif Ganfyddiadau

### Presgripsiynau

**Manteision**

- Arbedion ariannol
- Sicrwydd o gael gafael ar hanfodion
- Cyfleustra

**Heriau**

- Proses archebu gymhleth
- Cynnyrch ddim ar gael
- Gwastraff bwyd sy'n deillio o beidio â mwynhau'r bwyd

### Cardiau cymhorthdal rhagdaledig

**Manteision**

- Hyblygrwydd ac amrywiaeth o ran cynnyrch
- Llai o straen ariannol
- Gwell cynhwysiant cymdeithasol

**Heriau**

- Cyfyngiadau'r cerdyn
- Anodd gwirio balansau
- Pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael trafferth dod o hyd i fwydydd heb glwten mewn archfarchnadoedd

Roedd gan **y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr** (70%) **ddiddordeb** mewn **newid i'r cerdyn cymhorthdal**, tra nad oedd y lleiafrif â diddordeb neu'n fodlon.

## Blaenoriaethau Allweddol

Nodwyd **chwe blaenoriaeth allweddol ar gyfer ei gwneud hi'n haws cael gafael ar** fwydydd heb glwten a chefnogi pobl â chlefyd seliag yn well:

- **Hawster cael gafael ar gynnyrch heb glwten**
- **Amrywiaeth a rhyddid i ddewis**
- **Deiet blasus ac iach**
- **Cysondeb**
- **Cost**
- **Gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o glefyd seliag**

Mae'r adroddiad llawn ar gael i'w ddarllen yma:
https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2024.12.09.24318385v1